# POLISI AR DDYFARNU

# RHYDDHAD ARDRETHI GORFODOL A

# DEWISOL

# RHYDDHAD CALEDI A

# RHYDDHAD ADRAN 44A

# EIDDO A

# FEDDIANNIR YN RHANNOL

## Rheoli'r Fersiwn

| DYDDIAD | AWDUR | FERSIWN | RHESWM DROS Y NEWID |
|---|---|---|---|
| Ionawr 2014 | Richard Davies<br>Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau | 1.00 | Polisi Cychwynnol |
| Rhagfyr 2016 | Richard Davies<br>Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau | 2.00 | Diwygiadau i benderfyniad |
| Gorffennaf 2019 | Deb Smith<br>Dirprwy Bennaeth Refeniw a Budd-daliadau | 3.00 | Newidiadau i hawl |
| Gorffennaf 2024 | Deb Smith<br>Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau<br>Gwasanaethau a Rennir | 4.00 | Diwygiadau i benderfyniad / rheoli cymhorthdal |

## Cynnwys


RHEOLI FERSIWN .......... 2

1. CYFLWYNIAD .......... 4

2 Y FFRAMWAITH CYFREITHIOL .......... 5

RHYDDHAD GORFODOL .......... 6

4. RHYDDHAD DEWISOL .......... 7

5. RHYDDHAD CALEDI .......... 11

6. RHYDDHAD ADRAN 44A EIDDO A FEDDIANNIR YN RHANNOL .......... 13

7. PENDERFYNU AR GEISIADAU AM RHYDDHAD .......... 14

8. CYMORTH GWLADWRIAETHOL .......... 17

# 1. Cyflwyniad

1.1 Diben y ddogfen hon yw nodi Polisi'r Cyngor ar ddyfarnu rhyddhad ardrethi gorfodol a dewisol, rhyddhad caledi adran 49 a rhyddhad ardrethi ar gyfer eiddo a feddiannir yn rhannol (adran 44a).

1.2 Mae'n darparu fframwaith i aelodau a swyddogion weinyddu a rheoli'r rhyddhad.

1.3 Mae'n nodi'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer dyfarnu rhyddhad a'r meini prawf i'w bodloni.

1.4 Bydd cyflwyno'r Polisi hwn yn galluogi dyfarnu ac adolygu rhyddhad yn y dyfodol a hynny mewn modd teg yn unol ag arfer gorau.

1.5 Bydd hefyd yn sicrhau y bydd modd adolygu hawliau yn rheolaidd ac mai sefydliadau sy'n gweithredu yn unol â'r Polisi, a hynny'n unig fydd yn parhau i dderbyn rhyddhad. Bydd hyn yn gwella'r amgylchedd rheoli ac yn sicrhau yn y dyfodol y bydd y gyllideb a ddyrennir o ran Ryddhad Dewisol yn cael ei gwario yn unol â'r Polisi, felly'n sicrhau y bydd adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio'n deg, felly'n darparu rhyddhad i lawer o sefydliadau haeddiannol yn y fwrdeistref.

1.6 Mae'r Polisi hwn wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol gan yr Aelod Gweithredol dros Adnoddau.

# 2 Y Fframwaith Cyfreithiol

2.1 Mae'r gyfraith sy'n ymwneud â rhyddhad ardrethi wedi ei nodi yn y Deddfau canlynol:

**Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988**

| | |
|---|---|
| Adran 43 | mae'n ymwneud ag eiddo sydd wedi'i feddiannu ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi Rhyddhad Ardrethi Gorfodol os yw'r trethdalwr yn elusen neu'n ymddiriedolwr i elusen a bod yr eiddo yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol. |
| Adrannau 47 a 48 | mae'n caniatáu i'r Awdurdod roi Rhyddhad Dewisol i elusennau a sefydliadau eraill o'r math a rhagnodir (fel y nodir yn Adran 4 isod). |
| Adran 49 | mae'n caniatáu i'r awdurdod roi rhyddhad caledi i eiddo a feddiannir ac eiddo gwag lle byddai'r trethdalwr yn wynebu caledi pe na bai'r awdurdod yn gwneud hynny ac mae'n rhesymol i'r awdurdod wneud hynny gan ystyried buddiannau personau atebol am ei Dreth y Cyngor. |
| Adran 64 (10) | mae'n ymwneud â siopau elusen ac yn nodi bod siop i'w thrin fel siop a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol os yw'n cael ei defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer gwerthu nwyddau (gan dynnu treuliau) os rhoddir y nwyddau a bod yr elw'n cael ei ddefnyddio at ddibenion yr elusen honno. |
| Adran 44A | mae'n caniatáu i'r awdurdod arfer ei ddisgresiwn i ofyn am dystysgrif ddiwygiedig o'r Swyddfa Brisio mewn perthynas â rhyddhad dros dro yng ngwerth ardrethol eiddo a feddiannir yn rhannol am gyfnod byr o amser. |

**Deddf Llywodraeth Leol 2003**

Mae adran 64 o'r Ddeddf hon hefyd yn diwygio Deddf 1988 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Adran 43 | Mae'n cynnwys Clybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol yn y diffiniad o rai sy'n gymwys i gael Rhyddhad Gorfodol |
| Adran 45 | Mae'n delio ag effaith Clybiau Chwaraeon sy'n dod yn wag. |
| Adran 47 | Mae'n ychwanegu Clybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol at y diffiniad o'r rhai sy'n gymwys i gael Rhyddhad Dewisol. |

**Deddf Trethu (Eiddo Gwag) 2007**

Mae'n diwygio Deddf 1988 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| S45A | Hereditamentau gwag: sero (Elusennau / CChAC) |
| S47(10) | Hereditamentau gwag: sero (Rhyddhad Dewisol) |

# 3 Rhyddhad Gorfodol

## 3.1 Sefydliadau sy'n gymwys i gael Rhyddhad Gorfodol

3.1.1 Er mwyn bod yn gymwys i gael rhyddhad gorfodol rhaid i sefydliad beidio â chreu elw ac mae'n rhaid i'r eiddo y maent yn ei feddiannu gael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol neu ddibenion Clwb Chwaraeon Amatur Cymunedol. Os yw'r eiddo'n wag, rhaid iddo ymddangos i'r awdurdod y bydd yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol pan fydd yr eiddo'n cael ei ddefnyddio nesaf.

3.1.2 Y mathau o sefydliadau sydd fel arfer yn gymwys i gael rhyddhad yw:

(i) Elusennau sydd wedi'u cofrestru dan Adran 3 Deddf Elusennau 1983

(ii) Y sefydliadau canlynol sydd wedi'u heithrio rhag cofrestru o dan y Ddeddf Elusennau: -
   (a) Comisiynwyr yr Eglwys
   (b) Sefydliadau sydd wedi'u cofrestru gyda Deddfau'r Cymdeithasau Cyfeillgar 1896 – 1974
   (c) Cymdeithas Sgowtiaid a Geidiaid
   (d) Ysgolion Gwirfoddol o fewn ystyr Deddfau Addysg 1944 - 1980 - heb unrhyw waddoliad parhaol heblaw adeiladau ysgol.

(iii) Siopau elusennau ar yr amod eu bod yn cael eu defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer gwerthu nwyddau a roddwyd i'r elusen a bod yr elw yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr elusen yn unig.

(iv) Sefydliadau sydd wedi'u cofrestru fel Clybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol.

## 3.2 Lefel y Rhyddhad Gorfodol sydd ar gael

3.2.1 Adeiladau wedi'u meddiannu - mae gan sefydliadau cymwys hawl i Ryddhad Gorfodol o 80% o'r gyfradd lawn sydd fel arall yn daladwy.

# 4. Rhyddhad Dewisol

4.1 Sefydliadau sy'n gymwys i gael Rhyddhad Dewisol

4.1.1 Er mwyn bod yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi dewisol rhaid i un neu fwy o'r canlynol fod yn berthnasol:

(i) mae'r trethdalwr yn elusen neu'n ymddiriedolwr elusen, ac mae'r eiddo yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol (boed hynny gan yr elusen honno neu'r elusen honno ac elusennau eraill);

(ii) nid yw'r eiddo yn “hereditament a eithrir” a bod y cyfan neu ran ohono yn cael ei feddiannu at ddibenion un neu fwy o sefydliadau neu fudiadau eraill nad oes yr un ohonynt wedi'i sefydlu nac yn cael ei gynnal er elw ac y mae pob un o'i brif amcanion yn elusennol neu fel arall yn ddyngarol neu'n grefyddol neu'n ymwneud ag addysg, lles cymdeithasol, gwyddoniaeth, llenyddiaeth neu'r celfyddydau cain;

(iii) nid yw'r hereditament yn “hereditament a eithrir”, mae'n cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion hamdden, ac mae'r cyfan neu ran ohono yn cael ei feddiannu at ddibenion clwb, cymdeithas neu sefydliad arall nad yw wedi'i sefydlu neu ei gynnal er elw;

(iv) mae'r trethdalwr wedi'i gofrestru gan Gyllid y Wlad fel statws Clybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol;

(v) gall fod cynllun arbennig a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru y mae'r awdurdod yn ei fabwysiadu am gyfnod penodol o amser, er enghraifft (Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Rhyddhad Ardrethi Manwerthu Stryd Fawr).

4.2 Lefel y Rhyddhad Dewisol Sydd Ar Gael

4.2.1 Gall Sefydliadau sy'n derbyn Rhyddhad Ardrethi Gorfodol dderbyn Rhyddhad Dewisol “ychwanegol” fel a ganlyn:

- Ysgolion/Amgueddfeydd – 20%
- Gwerth ardrethol sy’n llai na £49,999 – 20%
- Gwerth ardrethol sy’n fwy na £50,000 – 0%

4.2.2 Gellir dyfarnu Rhyddhad Dewisol o 100% i sefydliadau eraill fel a ganlyn:

- Ysgolion/Amgueddfeydd – 100%
- Gwerth ardrethol sy’n llai na £49,999- 100%
- Gwerth ardrethol sy’n fwy na £50,000 – 80%

4.2.3 Mae'r canlynol, er nad yw'n gyflawn, yn rhestr o'r mathau o sefydliadau a allai fod yn gymwys i dderbyn rhyddhad dewisol:

(i) Clybiau chwaraeon
(ii) Sefydliadau sy'n Darparu Canolfannau Cymunedol / Neuaddau
(iii) Canolfannau ar gyfer Lles Cymunedol ac Addysg

(iv) Grwpiau Ieuenctid, Clybiau ac ati
(v) Sefydliadau Artistig, Cerddorol neu Eraill o'r fath
(vi) Sefydliadau Gwirfoddol Eraill
(vii) Mentrau Cymdeithasol

4.3 Y Polisi ar Ddyfarnu Rhyddhad Ardrethi Dewisol

**Sefydliadau sy'n gymwys i dderbyn Rhyddhad Gorfodol**

4.3.1 Polisi'r Cyngor yw rhoi Rhyddhad Dewisol “ychwanegol” i'r sefydliadau hynny sy'n gymwys i gael Rhyddhad Gorfodol o 80% ac sy'n bodloni'r meini prawf Rhyddhad Dewisol a nodir ym mharagraff 4.3.3 (i) i (xiii), oni bai:

(i) bod cyfrifon y sefydliad yn dangos arian wrth gefn yr ystyrir eu bod yn ormodol; neu

(ii) bod bar, siop, bwyty neu weithrediad tebyg a bod yr incwm sy'n cael ei greu o'r rhain yn fwy na 50% o gyfanswm yr incwm; neu

(iii) bod y sefydliad yn codi ffioedd sydd wedi'u gosod ar lefel mor uchel fel eu bod yn cael eu hystyried yn ormodol ac yn eithrio'r gymuned gyffredinol.

ac os felly ni ddylid rhoi Rhyddhad Dewisol “ychwanegol”.

**Sefydliadau eraill nad ydynt yn creu elw**

4.3.2 Polisi'r Cyngor yw dyfarnu Rhyddhad Ardrethi Dewisol i sefydliadau nad ydynt yn gymwys i gael Rhyddhad Gorfodol ond sy'n bodloni'r meini prawf a nodir ym mharagraffau 4.1.1 a 4.3.3.

4.3.3 Er mwyn canfod a yw sefydliad yn bodloni'r meini prawf, dylid ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun. Mae'r pwyntiau cyffredinol canlynol a chanllawiau Social Enterprise UK yn cael eu hystyried:-

(i) Os gellir dangos bod y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu, er pennaf les trigolion Torfaen, a hynny'n unig, gellir dyfarnu Rhyddhad Dewisol.

(ii) Pan werthir nwyddau o eiddo, rhaid mai rhoddion yn bennaf yw'r nwyddau a werthir (waeth beth yw amcanion y sefydliad)

(iii) Rhaid i'r adeilad fod yn addas at y diben ac yn unol ag amcanion y sefydliad.

(iv) A yw aelodaeth yn agored i bob rhan o'r gymuned? Ni ddylid ystyried clybiau na sefydliadau os yw'r ffioedd aelodaeth wedi'u gosod ar lefel mor uchel eu bod yn eithrio'r gymuned gyffredinol. Os yw'r ffi aelodaeth yn fwy na £336.00 ni ddylid dyfarnu unrhyw ryddhad.

(v) A yw'r sefydliad yn annog aelodaeth o grwpiau penodol yn y Gymuned e.e. grwpiau ethnig, pobl ifanc, grwpiau oedran eraill, menywod, pobl anabl?

(vi) A yw'r aelodaeth yn cynnwys pobl sy'n byw yn bennaf yn ardal y Cyngor?

(vii) A yw'r sefydliad yn annog aelodaeth neu'n rhoi cymorth i grwpiau penodol yr ystyrir eu bod yn deilwng o gael cymorth; a / neu hyrwyddo cynlluniau cymdeithasol ac economaidd e.e. clybiau gwaith, cynlluniau dychwelyd i'r gwaith, cynlluniau ailhyfforddi neu ddarparu mentrau cydweithredol?

(viii) A yw'r sefydliad yn darparu hyfforddiant i'w aelodau?

(ix) A oes cynlluniau ar gyfer grwpiau penodol i ddatblygu eu sgiliau?

(x) A yw'r cyfleusterau ar gael i bobl heblaw ei aelodau?

(xi) A oes gan y sefydliad far, siop neu fwyty trwyddedig? Os felly, ydy'r enillion y bar, siop neu fwyty yn fwy na 50% o'r incwm gros?

(xii) A yw'r sefydliad sy'n darparu'r cyfleusterau yn rhyddhau'r Cyngor yn anuniongyrchol rhag darparu'r cyfleuster hwnnw?

(xiii) A yw arian wrth gefn y sefydliad yn cael ei ystyried yn ormodol o gymharu â sefydliadau eraill sy'n debyg?

(xiv) Ystyrir bod y cyflogau'n ormodol / amhriodol

(xv) Telir difidendau

4.3.4 Bydd methu â darparu tystiolaeth yn ôl y gofyn i gefnogi unrhyw hawliad yn atal y cais rhag mynd yn ei flaen

4.4 <u>Amgylchiadau Arbennig</u>

4.4.1 Os yw'r Cyngor yn fodlon bod cyfiawnhad eithriadol yn codi, gall benderfynu dyfarnu'r rhyddhad ardrethi dewisol.

4.5 <u>Ceisiadau am ryddhad Gorfodol a / neu Ddewisol</u>

4.5.1 Dylid gwneud ceisiadau yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r Cais am Ryddhad Gorfodol / Dewisol sydd ynghlwm fel Atodiad 1. Dylai ceisiadau am ryddhad dewisol hefyd ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

(i) Y set ddiweddaraf o Gyfrifon Archwiliedig a'r cyfrifon 3 blynedd diwethaf os gofynnwyd amdanynt

(ii) Copi o gyfansoddiad y sefydliad

(iii) Tystiolaeth o gofrestru fel Clwb Chwaraeon Amatur Cymunedol (os yw'n berthnasol).

(iv) O ran sefydliadau sydd wedi'u heithrio rhag cofrestru fel elusen - mae angen tystiolaeth o'r esemptiad ar ffurf llythyr gan Gyllid y Wlad yn nodi eu bod wedi'u heithrio rhag treth dan S505 Deddf Treth Incwm a Chorfforaeth 1988.

4.6 <u>Dyddiad y Daw'r Hawlio i Rym</u>

<u>Rhyddhad Gorfodol</u>

4.6.1 Y dyddiad y daw i rym i elusen gofrestredig fydd pa un bynnag yw'r olaf o'r rhain:

- y dyddiad y meddiannir yr eiddo; neu
- y dyddiad y cofrestrwyd fel elusen.

4.6.2 Y dyddiad y daw i rym i Glwb Chwaraeon Amatur Cymunedol fydd pan un bynnag yw’r olaf o’r rhain:

- y dyddiad y meddiannir yr eiddo; neu
- y dyddiad y cofrestrwyd gyda Chyllid y Wlad.

Rhyddhad Dewisol

4.6.3 Y dyddiad y daw i rym i sefydliadau sy’n gymwys i dderbyn Rhyddhad Dewisol, p’un a ydynt hefyd yn gymwys i dderbyn Rhyddhaf Gorfodol fydd:

(i) pan fydd y cais yn cael ei wneud cyn 30 Medi neu ar ôl hynny yn y flwyddyn drethu bresennol, sef pa bynnag yw’r olaf o’r rhain:

- 1 Ebrill yn y flwyddyn flaenorol, neu
- y dyddiad y meddiannir yr eiddo.

(ii) Pan fydd y cais yn cael ei wneud ar 1 Hydref neu wedi hynny yn y flwyddyn drethu bresennol, sef pa bynnag yw’r olaf o’r rhain:

- 1 Ebrill yn y flwyddyn bresennol, neu
- y dyddiad y meddiannir yr eiddo.

4.7 Adolygiadau

4.7.1 Bydd dyfarniad Rhyddhad Ardrethi Gorfodol a Dewisol yn cael ei adolygu bob 2 flynedd. Bydd hyn yn sicrhau bod dyfarniad yn cael ei adolygu o ran priodoldeb. Os na ddychwelir adolygiadau, bydd y rhyddhad yn cael ei ganslo.

4.8 Cynlluniau Arbennig

4.8.1 Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynlluniau arbennig, byddant yn cael eu gweinyddu'n unol â'r ddeddfwriaeth / canllawiau.

## 5. Rhyddhad Caledi

5.1 Sefydliadau a allai fod yn gymwys i gael Rhyddhad Caledi

5.1.1 Gellir rhoi rhyddhad caledi i unrhyw drethdalwr boed yn unigolyn preifat, yn gwmni masnachol, yn gorff corfforaethol neu'n unrhyw endid cyfreithiol arall.

5.2 Lefel y Rhyddhad Caledi sydd ar gael

5.2.1 Gall yr awdurdod ddyfarnu Rhyddhad Caledi o hyd at 100%.

5.3 Y Polisi ar Ddyfarnu Rhyddhad Caledi

5.3.1 Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y rhyddhad caledi rhaid i'r awdurdod fod yn fodlon y:

(i) Byddai'r trethdalwr yn wynebu caledi pe na bai'r awdurdod yn gwneud hynny; a

(ii) Ei fod yn rhesymol i'r awdurdod wneud hynny gan ystyried buddiannau unigolion sy'n destun ei Dreth y Cyngor.

5.3.2 Bydd y Cyngor yn ystyried pob cais ar ei deilyngdod ei hun a bydd yn ystyried y canlynol:

(i) Pa dystiolaeth sydd o galedi? Nid yw hyn o reidrwydd wedi'i gyfyngu i ystyriaethau ariannol yn unig, er bod rhaid i galedi ariannol fodoli.

(ii) A yw'r caledi yn debygol o fod yn amod dros dro e.e. a fyddai dyfarniad rhyddhad un-tro yn ddigonol i ddileu'r caledi?

(iii) I ba raddau mae yna galedi; a yw'n debygol na fyddai'r busnes yn gynaliadwy hyd yn oed os byddai'r rhyddhad yn cael ei ddyfarnu?

(iv) A oes materion cyflogaeth i'w hystyried e.e. a fyddai rhagolygon cyflogaeth yn yr ardal yn gwaethygu pe bai'r cwmni'n mynd allan o fusnes?

(v) A fyddai colli'r busnes yn arwain at ostyngiad mewn cyfleusterau i'r gymuned leol e.e. colli unig siop?

(vi) Pa fudd fyddai i'r trethdalwr pe bai'r Cyngor yn dyfarnu'r rhyddhad?

5.4 Ceisiadau am Rhyddhad Caledi

5.4.1 Dylai ceisiadau fod yn ysgrifenedig a dylent ddarparu digon o wybodaeth i alluogi'r ystyriaethau uchod, gan gynnwys darparu eu cyfres ddiweddaraf o gyfrifon archwiliedig ac unrhyw wybodaeth ariannol arall sy'n berthnasol.

5.5 Dyddiad y Daw'r Hawl i Rym

5.5.1 Y dyddiad y daw unrhyw gais i rym fydd:

(i) pan fydd y cais yn cael ei wneud ar 30 Medi neu cyn hynny yn y flwyddyn drethu bresennol, sef yr olaf o’r rhain:
- 1 Ebrill yn y flwyddyn flaenorol; neu’r
- dyddiad y meddiannir yr eiddo.

(ii) pan fydd y cais yn cael ei wneud ar 1 Hydref neu wedi hynny yn y flwyddyn drethu bresennol, sef yr olaf o’r rhain:
- 1 Ebrill yn y flwyddyn bresennol; neu’r
- dyddiad y meddiannir yr eiddo.

5.6 Adolygiad

5.6.1 Rhoddir Rhyddhad Caledi am uchafswm o un flwyddyn ariannol a bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ailymgeisio'n flynyddol.

# 6. Rhyddhad Adran 44a eiddo a feddiannir yn rhannol

6.1 Sefydliadau a allai fod yn gymwys o dan Adran 44a

6.1.1 Gellir ystyried a rhoi rhyddhad adran 44a i unrhyw drethdalwr boed yn unigolyn preifat, yn gwmni masnachol, yn gorff corfforaethol neu'n unrhyw endid cyfreithiol arall.

6.2 Lefel y rhyddhad Adran 44a sydd ar gael

6.2.1 Bydd hyn yn dibynnu ar arwynebedd yr eiddo sy'n wag, y rheswm dros hyn a'r cyfnod gweithredol. Os cytunir y bydd yr Awdurdod yn arfer ei ddisgresiwn, yna bydd rhyddhad o 100% yn cael ei ddyfarnu i'r ardal wag am y cyfnod gweithredol perthnasol.

6.2.2 Gofynnir i'r swyddfa brisio baratoi tystysgrif dosrannu er mwyn caniatáu i'r rhyddhad gael ei gyfrifo a'i roi ar ôl i'r Awdurdod gymeradwyo'r cais hwn.

6.3 Y Polisi ar ddyfarnu rhyddhad Adran 44a

6.3.1 Er mwyn bod yn gymwys bydd yn rhaid i'r Awdurdod ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod unigol a bod yn fodlon ar y canlynol:

- Nid yw hwn yn ardal wag hirdymor yn yr eiddo.
- Ystyried maint yr eiddo a'r defnydd a wneir o'r safle yn gyffredinol
- Y rheswm dros feddiannu’r rhannol – Meddiannu /ymadael cyfnodol, newid mewn cynhyrchu, ailddatblygu i wella gweithrediad, rhesymoli ac ati.

6.4 Cais am Rhyddhad Adran 44A

6.4.1 Nid oes angen cais ysgrifenedig. Dylid gwneud ceisiadau yn brydlon er mwyn caniatáu ymweliad i wirio’r hawl.

6.4.2 Pan dderbynnir cais wedi'i ôl-ddyddio, rhaid bod tystiolaeth sylweddol ar gael i gefnogi'r cais er mwyn iddo gael ei ystyried yn ôl-weithredol. Er mwyn i gais gael ei ystyried mewn perthynas â blwyddyn flaenorol, rhaid ei gyflwyno cyn 30 Medi ym mlwyddyn y cais.

6.5 Cyfnod yr hawl i dderbyn rhyddhad

6.5.1 Bydd y rhyddhad adran 44a yn rhedeg am y cyfnod byrrach o blith y canlynol:

- 3 mis os yw’n eiddo adwerthu/swyddfeydd neu 6 mis os yw’n eiddo diwydiannol/cynhyrchu
- Newid ym maint y feddiannaeth rhannol
- Diwedd y cyfnod trethu y mae'r dosraniad yn gysylltiedig ag ef
- Dechrau cyfnod gweithredol newydd dan dystysgrif newydd
- Yr hereditament yn dod yn gwbl wag

# 7. Penderfynu ar Geisiadau am Rhyddhad

7.1 Darpariaethau Statudol

7.1.1 Mae Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cynnig bod awdurdod lleol yn dirprwyo pŵer i swyddog, pwyllgor neu is-bwyllgor.

7.1.2 Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau ystyried pob cais am ryddhad ardrethi dewisol ar sail eu teilyngdod unigol.

7.2 Swyddogion awdurdodedig

7.2.1 Yn unol ag Adran 101 Deddf Llywodraeth Leol 1972 mae'r Aelod Gweithredol dros Adnoddau wedi dirprwyo'r broses benderfynu ac apeliadau i'r swyddogion canlynol:

| Swyddog | Dyfarniad Cychwynnol | Apel |
|---|---|---|
| | | |
| Swyddog Adran 151 | | Ie |
| Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau | | Ie |
| Rheolwr Refeniw Gwasanaeth a Rennir | Ie | |
| Dirprwy Enwebedig | Ie | |

7.2.2 Ymgynghoriad

Ymgynghori â'r Pennaeth Cyllid mewn perthynas â goblygiadau'r gyllideb

7.3 Penderfyniad cychwynnol ar Ryddhad

7.3.1 Penderfyniad cychwynnol ar ryddhad ardrethi mewn perthynas â:

(i) Rhyddhad Gorfodol

(ii) Rhyddhad Dewisol

(iii) Rhyddhad Caledi

(iv) Rhyddhad Adran 44a (eiddo a feddiannir yn rhannol)

7.3.2 Wrth benderfynu ar gymhwysedd i dderbyn rhyddhad, rhoddir ystyriaeth ar sail unigol i bob cais yn unol â Pholisi'r Cyngor fel y nodir yn y ddogfen hon, Ardrethi Annomestig “Canllawiau ar Ryddhad Ardrethi i Elusennau a Sefydliadau Di-elw Eraill ”a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Hydref 2004 ac ystyrir canllawiau Mentrau Cymdeithasol y DU.

7.3.3 Pan gwrthodir cais, hysbysir y trethdalwr yn ysgrifenedig ynghylch y canlynol:

(i) Y penderfyniad
(ii) Y rheswm dros y penderfyniad
(iii) Yr hawl i apelio

7.4 Y Broses Apelio

7.4.1 Os gwrthodwyd cais gellir cyflwyno apêl yn erbyn y penderfyniad trwy ysgrifennu at y Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau o fewn 28 diwrnod o ddyddiad y penderfyniad neu os gwrthodir Cais Caledi, gellir ysgrifennu at y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adnoddau).

7.4.2 Yna caiff y cais a'r penderfyniad gwreiddiol eu hystyried ymhellach.

7.3.3 Hysbysir y trethdalwr yn ysgrifenedig ynghylch penderfyniad yr apêl gan nodi'r rhesymau dros y penderfyniad.

# 8. Rheoli Cymorthdaliadau'r DU

8.1 Dechreuodd cyfundrefn rheoli cymorthdaliadau newydd y DU ar 4 Ionawr 2023, pan ddaeth Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 i rym. Mae canllawiau pellach ar wefan **GOV.UK**. Yn gyffredinol, mae rheolau Cymorth Gwladwriaethol yr Undeb Ewropeaidd yn gwahardd cymorthdaliadau'r Llywodraeth i fusnesau. Gall rhyddhad treth, yn cynnwys ardrethi annomestig olygu cymorth Gwladwriaethol. Dylai awdurdodau bilio gadw hyn yn y cof wrth ystyried rhoi rhyddhad ardrethi dewisol.

8.2 Pan mae'n rhaid i'r Cyngor arfer disgresiwn wrth ddyfarnu rhyddhad, er enghraifft Rhyddhad Caledi a Rhyddhad Ardrethi Dewisol, dylid ystyried Rheoli Cymhorthdal. Nid yw elusennau a sefydliadau dielw fel arfer yn cystadlu â busnesau eraill, felly ni fyddent yn cael eu hystyried. Ond os ydyn nhw'n cymryd rhan mewn gweithgareddau masnachol, bydd angen eu hystyried.